***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

## ATODLEN 23

## DIWYGIADAU I DDEDDF CASGLU A RHEOLI TRETHI (CYMRU) 2016

65 Ar ôl adran 183 mewnosoder—

**“183A Atal ad-daliad pan fo apêl bellach yn yr arfaeth**

(1) Mae’r adran hon yn gymwys pan fo—

(a) ar apêl yn erbyn penderfyniad apeliadwy, y tribiwnlys yn dyfarnu bod ACC i ad-dalu swm o dreth ddatganoledig a dalwyd gan berson, a

(b) ACC yn gwneud cais o dan adran 11(4) neu 13(4) o DTLlG am ganiatâd i wneud apêl bellach.

(2) Wrth wneud cais am ganiatâd caiff ACC ofyn am ganiatâd y tribiwnlys i ohirio ad-dalu’r swm hyd—

(a) y dyfernir ar yr apêl bellach, neu

(b) y mae ACC yn cael sicrhad digonol ar gyfer y swm.

(3) Rhaid i’r tribiwnlys neu’r llys perthnasol ganiatáu cais ACC—

(a) os yw’n rhoi caniatâd i’r apêl bellach gael ei chynnal, a

(b) os yw’n credu bod angen caniatáu’r cais er mwyn diogelu’r refeniw.

(4) Os na roddir caniatâd i wneud apêl bellach—

(a) gan Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn dilyn cais o dan adran 11(4)(a) o DTLlG, neu

(b) gan yr Uwch Dribiwnlys yn dilyn cais o dan adran 13(4)(a) o’r Ddeddf honno,

nid yw’r ffaith fod ACC wedi gwneud cais o dan is-adran (2) wrth wneud y cais am ganiatâd yn rhwystro ACC rhag gwneud cais arall o dan yr is-adran honno os yw ACC yn gwneud cais am ganiatâd i wneud apêl bellach o dan adran 11(4)(b) neu 13(4)(b) o DTLlG.

(5) Ond fel arall, mae penderfyniad y tribiwnlys neu’r llys perthnasol ynglŷn â chais o dan adran (2) yn derfynol.

(6) Yn yr adran hon—

ystyr “tribiwnlys neu lys perthnasol” (“*relevant tribunal or court*”) yw pa un bynnag o’r canlynol y mae ACC yn gwneud cais iddo am ganiatâd i wneud apêl bellach—

(a) Tribiwnlys yr Haen Gyntaf;

(b) yr Uwch Dribiwnlys;

(c) y llys apeliadol perthnasol;

ystyr “llys apeliadol perthnasol” (“*relevant appellate court*”) yw’r llys a bennir felly o dan adran 13(11) o DTLlG.”